

PWYLLGOR :	Y Cyngor
DYDDIAD :	19 Rhagfyr 2019
TEITL :	Ail-benodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau
AWDUR :	Iwan Evans, Swyddog Monitro

Cefndir

1. Mae pump 'aelod annibynnol' (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol) ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynnwys aelod yn cynrychioli'r cynghorau cymuned a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.
2. Mae tymor aelodaeth dau o'r aelodau annibynnol, sef Einir Young a Margaret E. Jones wedi dod i ben.
3. Mae'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) yn caniatáu ail-benodi aelodau annibynnol am un cyfnod olynol, pellach o ddim mwy na phedair blynedd. Mae'r ddau aelod yn gymwys i'w hail-benodi, ac maent wedi mynegi eu parodrwydd i wasanaethu am gyfnod pellach. Byddai eu hail benodi yn golygu na fyddai'r Pwyllgor yn colli'r profiad a'r arbenigedd y maent wedi ei ennill yn ystod eu gwasanaeth.
4. Tra bod rhaid dilyn trefn statudol o hysbysebu a chyfweld cyn penodi aelod annibynnol newydd, nid oes angen dilyn y broses honno wrth ail-benodi.

Argymhelliad

5. Ail benodi Einir Young a Margaret E. Jones fel aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach.

Barn y Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

Awdur yr adroddiad

Y Pennaeth Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.